



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru

OL
O
R
R

Mai 2017

 **Cadw**

Datganiad o Ddiben

Mae Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru yn ychwanegu at Polisi Cynllunio Cymru¹ a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.²

Mae Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru yn nodi egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth wneud newidiadau i adeiladau rhestredig ac mae'n esbonio sut i wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau perchenogion, awdurdodau cynllunio lleol a Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw).

Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu'n bennaf at berchenogion adeiladau rhestredig ac asiantau sy'n gweithredu ar eu rhan er mwyn eu helpu i ddeall goblygiadau bod yn berchen ar adeilad rhestredig a gwneud newidiadau iddo. Dylai hefyd helpu perchenogion ac asiantau i ystyried *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*³ (*Egwyddorion Cadwraeth*), a gyhoeddwyd gan Cadw, er mwyn cyflawni newidiadau sensitif o ansawdd uchel.

Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ddefnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr â *Polisi Cynllunio Cymru*, *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Egwyddorion Cadwraeth* Cadw wrth fynd ati i lunio'u polisau eu hunain ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol a cheisiadau unigol am gydsyniad adeilad rhestredig, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio.



Llywodraeth Cymru
Gwasanaeth yr Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000
Ebost: cadw@wales.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2017
ISBN Digidol 978 1 4734 8695 9

OGL © Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle nodir yn whanol. WG24303

Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw, sy'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Llun y clawr: Maenor Llanyrafon, adeilad rhestredig gradd II* sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg (© Hawlfraint y Goron (2017), Croeso Cymru).

Cynnwys

Ffeithiau Cyflym

Cyflwyniad

1 Deall eich Adeilad Rhestredig

2 Arwyddocâd

- 2.1 Lleoliad
- 2.2 Ffurfi a Chynllun
- 2.3 Deunyddiau
- 2.4 Manylion
- 2.5 Y Tu Mewn i Adeiladau

3 Adeiledd, Cyflwr a Pherfformiad

- 3.1 Deall yr Adeiledd
- 3.2 Deall Cyflwr
- 3.3 Deall Pherfformiad

4 Rheoli Newid

- 4.1 Cynnal a Chadw
- 4.2 Atgyweirio
- 4.3 Gwaith Adnewyddu Cyfnodol
- 4.4 Adfer ac Ailadeiladu
- 4.5 Gwaith Newydd neu Waith Addasu
- 4.6 Dymchwel
- 4.7 Newid Defnydd
- 4.8 Mesurau Effeithlonrwydd Ynni
- 4.9 Hygyrchedd

4.10 Glanhau

4.11 Dogfennu a Chofnodi

5 Proses Cydsyniad Adeilad Rhestredig

- 5.1 Beth yw Cydsyniad Adeilad Rhestredig?
- 5.2 Cael Cyngor Proffesiynol
- 5.3 Cael Cyngor Cyn Ymgeisio
- 5.4 A oes angen Caniatâd Cynllunio?
- 5.5 Cyflwyno eich Cais
- 5.6 Beth sy'n Digwydd Nesaf?
 - 5.6.1 Dilysu
 - 5.6.2 Hysbysebu
 - 5.6.3 Ymgynghori
- 5.7 Amodau
- 5.8 Hysbysu
- 5.9 Sut i Apelio
- 5.10 Yn ystod y Gwaith
- 5.11 Gwaith Anawdurdodedig

Atodiad

Cais am Gydsyniad Adeilad Rhestredig — Rhestr Gyfeirio o Ddogfennau Ategol

Cyfeiriadau

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

Ffeithiau Cyflym ⇧

- 1 **Mae adeiladau rhestredig yn adnodd cyfyngedig, i'w trysori a'u diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**
- 2 **Gall newid fod yn ddymunol neu'n angenrheidiol, ond mae angen ei reoli'n dda.**
- 3 **Mae dealltwriaeth drylwyr o arwyddocâd eich adeilad rhestredig o gymorth mawr i sicrhau bod unrhyw newidiadau a gynigir gennych yn parchu'r hyn sy'n arbennig amdano.**
- 4 **Gall deall cyflwr a pherfformiad eich adeilad rhestredig eich helpu i gael y budd mwyaf o fanteision newid a lleihau hyd yr eithaf ar y niwed a achosir.**

Cyflwyniad ⇧

Caiff adeiladau eu rhestru pan ystyrir eu bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Golyga hyn, nid yn unig bod eich adeilad yn bwysig i chi, ond ei fod hefyd yn bwysig i'ch cymuned leol a threftadaeth ddiwylliannol Cymru. Mae'n rhan o'r amgylchedd hanesyddol y mae angen inni ofalu amdano a'i warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Nid yw gwarchod, fodd bynnag, yn gyfystyr ag atal unrhyw newid a allai sicrhau bod eich adeilad yn fwy cynaliadwy ac economaidd hyfyw yn y tymor hir. Gall newidiadau cadarnhaol wella'n dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol a gallant hefyd ddod â manteision cymdeithasol ac economaidd drwy fwy o waith adfywio a thwristiaeth. Gyda'i gilydd, bydd y manteision hynny'n helpu i greu'r Gymru a ddymunwn yn y dyfodol drwy gyrraedd y nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.⁴

Mae eich adeilad rhestredig yn ased gwerthfawr unigryw, ond mae'n debyg ei fod eisoes wedi newid dros amser ac efallai y bydd angen i chi wneud newidiadau pellach. Mae a wnelo cadwraeth â rheoli newid yn ofalus. Golyga hyn ddod o hyd i'r ffordd orau o warchod a gwella nodweddion arbennig eich adeilad rhestredig fel y gall y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol ei werthfawrogi a'i fwynhau. Mae gofalu am adeiladau rhestredig mewn ffordd briodol, a sicrhau bod modd parhau i wneud defnydd cynaliadwy ohonynt, yn helpu i sicrhau y byddant yn parhau i gyfrannu at werth Cymru ac at fywydau ei phobl.

Nodir athroniaeth sylfaenol cadwraeth yn Egwyddorion *Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth)*,⁵ a gyhoeddwyd gan Cadw. Mae'r ddogfen hon yn nodi'n glir y dylai pob penderfyniad ynghylch cadwraeth fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'i heffaith debygol ar y nodweddion arbennig sy'n cyfrannu at arwyddocâd eich adeilad rhestredig.

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar newid i adeiladwaith adeiladau rhestredig, ac ar ddeall arwyddocâd yr adeiladwaith, ond gall fod gan adeiladau werth cymdeithasol, economaidd, symbolaidd neu ysbrydol hefyd. Mae'r gwerth cymunedol hwn hefyd yn bwysig ym maes arfer cadwraeth.

Bydd angen cael caniatâd arbennig (cydsyniad adeilad rhestredig) ar gyfer llawer o fathau o newid. Os nad ydych yn siŵr, mae'n well holi ac ymgynghori â'ch awdurdod cynllunio lleol na gwneud camgymeriadau a all fod yn anodd ac yn ddrud eu cywiro. Gallech fod yn cyflawni trosedd hefyd.

Mae perchenogion sy'n ceisio cyngor, yn casglu tystiolaeth, yn gwneud asesiad deallus o'r effaith ar dreftadaeth ac yn cyflwyno cais wedi'i ddogfennu'n dda yn aml yn cael eu synnu gan ba newidiadau y gellir eu cymeradwyo. Drwy fabwysiadu agwedd sensitif, llawn dychymyg at gynaliadwyedd gallwch gyflawni eich nodau heb danseilio arwyddocâd eich adeilad.

1. Deall eich Adeilad Rhestredig ⇐

Mae adeiladau hanesyddol yn bwysig fel cynnyrch creadigrwydd dynol a ffynhonnell unigryw o wybodaeth am y gorffennol. Er bod pob un o'r rhanbarthau yng Nghymru yn rhannu traddodiadau cryf o waith dylunio ac adeiladu, mae pob adeilad yn wahanol: mae gan bob adeilad hanesyddol ei stori ei hun. Gall ei adeiladwaith gynnwys tystiolaeth werthfawr am sut a phryd y cafodd ei adeiladu, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut mae wedi newid dros amser. Gall pob agwedd ar eich adeilad rhestredig fod yn rhan o'i stori a chyfrannu at ei arwyddocâd, gan gynnwys ei leoliad, ei ffurf a'i gynllun, a'i ddeunyddiau, ei adeiladwaith a'i fanylion. Fodd bynnag, nid yw pob agwedd, o reidrwydd, yr un mor arwyddocaol a dylid ystyried pob un yn ôl ei theilyngdod ei hun.

Mae'n arbennig o bwysig deall bod technegau adeiladu traddodiadol neu hanesyddol yn wahanol iawn i'r rhai a ddefnyddir mewn adeiladau modern. Roedd technegau traddodiadol yn galluogi adeiladau i 'anadlu' fel y bo lleithder yn cael ei amsugno a'i droi'n anwedd, ac roeddent hefyd yn golygu bod adeiladau'n cydweddu â'u hamgylchedd; gall cyflwyno technegau modern darfu ar y cylch hwn ac achosi difrod na ellir ei atgyweirio.

Mae gwneud gwaith rheoli a chynnal a chadw rheolaidd yn rhan hanfodol o ofalu am eich adeilad rhestredig, ond mae'n bosibl y bydd angen gwneud mwy na hynny er mwyn ei gadw at y dyfodol. Gall gwneud newidiadau i'ch adeilad rhestredig gynnwys popeth o waith atgyweirio ac adnewyddu i waith adfer ac ailadeiladu, gwaith addasu a gwaith newydd, neu ddymchwel ac addasiadau sy'n gysylltiedig â newid defnydd. Mae deall eich adeilad rhestredig yn sail ar gyfer cynllunio newidiadau priodol a fydd yn ei gynnal a'i wella.

2. Arwyddocâd ⇐

Bydd deall pam mae eich adeilad rhestredig o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig a'r hyn sy'n arwyddocaol amdano, nid yn unig yn eich helpu i ofalu am yr adeilad o ddydd i ddydd, ond bydd hefyd yn eich helpu i gynllunio a gwneud newidiadau a fydd yn sicrhau y gellir parhau i wneud defnydd ymarferol o'r adeilad yn yr hirdymor heb amharu ar ei ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

Pan fo adeilad yn cael ei restru, mae'r adeilad cyfan yn cael ei warchod, a gall hynny gynnwys strwythurau cwrtill a gwrthrychau sy'n sownd wrth yr adeilad (gweler adran 5.1), felly mae'n bwysig bod dealltwriaeth drylwyr o'r holl agweddau sy'n cyfrannu at ei wneud yn arbennig.

Gall y disgrifiad ar y rhestr — sydd ar gael ar wefan Cadw⁶ — esbonio pam mae eich adeilad yn rhestredig, ond efallai na fydd yn manylu ar ei holl nodweddion arbennig — mae'n bosibl, er enghraifft, na fydd yn disgrifio'r tu mewn. Efallai y bydd rhagor o wybodaeth am ei hanes a'i ddatblygiad ar gael yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol

Cymru (CHCC), eich cofnod o'r amgylchedd hanesyddol (CAH) lleol, sy'n cael ei gadw gan un o'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru, neu gan eich swyddfa gofnodion leol.⁷ Efallai hefyd y bydd gan eich awdurdod cynllunio lleol gofnodion yn ymwneud â hanes cynllunio sy'n gallu bod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth sy'n caniatáu ichi adnabod a deall newidiadau diweddar. Bydd dogfennau, mapiau a hen ffotograffau, yn ogystal â thystiolaeth ffisegol yr adeilad, yn eich helpu i ddeall eich adeilad ac i lywio'r penderfyniadau a wnewch.

Gall newidiadau sy'n debygol o effeithio ar adeiladwaith yr adeilad neu ei leoliad effeithio ar ei arwyddocâd neu ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Os ydych yn bwriadu gwneud newidiadau i'ch adeilad rhestredig, bydd angen i chi ddeall effaith eich cynigion ar ei arwyddocâd. Er mwyn eich helpu i wneud hyn, efallai y bydd angen i chi gynnal asesiad o'r effaith ar dreftadaeth (gweler adran 5.5).⁸

2.1 Lleoliad $\neg$

Mae'r lleoliad yn aml yn rhan hanfodol o gymeriad adeilad: gall fod gan y berthynas rhwng eich adeilad rhestredig a thir arall neu adeiladau eraill werth esthetig neu gall adlewyrchu'n uniongyrchol hanes y defnydd sydd wedi'i wneud ohono. Gall enghreifftiau gynnwys y berthynas rhwng ffermdy a'i adeiladau fferm; plasty a'i barc a'i ardd; tŷ a'r tai sydd drws nesaf iddo mewn teras; neu leoliad adeilad a'r cyfeiriad y mae'n ei wynebu er mwyn iddo fedru manteisio, o'i leoliad yn y dirwedd, ar olygfeydd o'r dirwedd honno, ac ar ei thraws. Gall ynysu adeiladau rhestredig oddi wrth yr ardal o'u hamgylch effeithio ar eu dichonoldeb economaidd yn ogystal â'u cymeriad, a gall leihau llawer iawn ar eu diddordeb a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i'r drefwedd ac i gefn gwlad. Mae dogfen Cadw, *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* yn esbonio mwy am leoliad ac am y cyfraniad y mae'n ei wneud i arwyddocâd eich adeilad rhestredig.⁹

2.2 Ffurf a Chynllun $\neg$

Gall maint a ffurf adeiladau rhestredig fod yn agweddau pwysig ar eu cymeriad pensaernïol a'u gwerth esthetig. Gallant hefyd gyfrannu at ddiddordeb hanesyddol am fod maint adeilad yn aml yn uniongyrchol gysylltiedig â'r defnydd a wnaed ohono a'i statws. Gall bwthyn bach fod yr un mor bwysig â thŷ mawr.

Yn aml, mae cynllun adeilad yn adlewyrchu'r adeiladwaith gwreiddiol ac mae'n darparu tystiolaeth am ei ddiben, ei oedran a'i ddatblygiad. Er enghraifft, roedd confensiynau rhanbarthol cryf o ran gwaith cynllunio domestig sydd wedi newid yn araf dros amser. Hyd yn oed lle mae'r cynllun gwreiddiol wedi'i golli yn ôl pob golwg, gall fod tystiolaeth ffisegol yn yr adeilad a all helpu i esbonio'r ffurf wreiddiol a threfn y newidiadau, megis tyllau pegiau a morteisiau gwag mewn fframiau pren, uniadau syth mewn waliau cerrig neu rith-nodweddion megis drysau a ffenestri a gaewyd i mewn. Mae deall cynllun a datblygiad eich adeilad yn rhoi cipolwg ar ei hanes a all lywio neu ysbrydoli opsiynau ar gyfer newid.

Gall newidiadau ac ychwanegiadau dilynol wella ansawdd eich adeilad rhestredig a bod o ddiddordeb yn eu rhinwedd eu hunain fel rhan o'i hanes. Yn yr un modd, gallant hefyd amharu arno.

Mae deall sut y datblygodd eich adeilad rhestredig, a deall ei arwyddocâd, yn eich galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch a ddylid cadw unrhyw newidiadau dilynol ai peidio ac a all yr adeilad ddygymod â newidiadau pellach.

Cadwch ffurf a chynllun hanesyddol, yn ogystal ag unrhyw nodweddion sy'n gysylltiedig â nhw, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol; adferwch pan fo hynny'n briodol; parchwch gymeriad a etifeddwyd wrth wneud gwaith newydd a gwaith addasu.

2.3. Deunyddiau $\neg$

Nid yn unig y mae'r deunyddiau a ddefnyddiwyd mewn adeilad hanesyddol yn hanfodol i berfformiad ac i adeiladwaith yr adeilad, ond maent hefyd yn gallu bod yn rhan bwysig o'i ddiddordeb arbennig (gweler adrannau 3.1. a 3.3). Gall deunyddiau hefyd ddarparu tystiolaeth am ddyddiad adeilad a sut y gwnaeth ddatblygu, yn ogystal â'i statws. Mae'r deunyddiau a ddewiswyd a'r ffordd y cawsant eu trin yn aml yn agwedd bwysig ar werth esthetig adeilad hefyd.

Cyn y Chwyldro Diwydiannol, roedd y deunyddiau a ddewiswyd yn dibynnu'n fawr ar yr hyn a oedd ar gael yn lleol; dim ond pobl gyfoethog a allai fforddio mewnforio deunyddiau o'r tu hwnt i'r ardal leol. Newidiodd hynny i ryw raddau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn sgil cyflwyno prosesau diwydiannol ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu deunyddiau. Fodd bynnag, parhaodd traddodiadau rhanbarthol a chawsant eu hatgyfnerthu hyd yn oed am fod ardaloedd gwahanol yn gweithgynhyrchu cynhyrchion gwahanol; er enghraifft, brics a theils rhanbarthol.

Nodweddwyd siroedd dwyreiniol Cymru gan adeiladau fframiau pren yn bennaf tan yr 17eg ganrif a'r 18fed ganrif. Er mai carreg yw'r prif ddeunydd adeiladu mewn mannau eraill yng Nghymru, yma hefyd ceir tystiolaeth o draddodiad cynharach o godi adeiladau pren. Mae daeareg Cymru yn gyfoethog ac yn gymhleth ac o'r herwydd, ceir amrywiaeth ardderchog o gerrig adeiladu.

Yn ogystal â'r deunydd a ddewiswyd, roedd y defnydd a wnaed ohono hefyd yn amrywio dros amser a chan ddibynnu ar yr adnoddau a oedd ar gael. Gall y ffordd y cafodd cerrig eu gosod mewn haenau a'u naddu, y ffordd y cafodd brics eu clymu wrth ei gilydd, y dull o wneud fframiau pren a'i baneli mewnlenni, y dechneg o osod toeon gwellt, y ffordd y cafodd llechi eu trin a'u gosod ac ati, oll gyfrannu at gymeriad unigryw eich adeilad.

Nid yw'n anarferol i fwy nag un math o adeiladwaith gael ei gyfuno mewn un adeilad. Mae hyn yn aml yn adlewyrchu cyfnodau adeiladu gwahanol, ond weithiau mae'n nodi penderfyniad esthetig; er enghraifft, defnyddio deunydd uwch ei statws ar gyfer y prif ffasâd, neu gyfuno deunyddiau o liwiau ac ansawdd gwrthgyferbyniol at ddibenion addurniadol.

Mae'r gorffeniad hefyd yn elfen bwysig o gymeriad a diddordeb adeiladau hanesyddol. Roedd yn anarferol i gerrig gael eu gadael heb eu gorffen cyn dylanwad yr Adfywiad Gothig yn y 19eg ganrif. Tan hynny, byddai adeiladau cerrig yn cael eu gwyngalchu a'u

rendro fel arfer. Erbyn y 19eg ganrif, roedd pensaernïaeth arbennig o fywiog o ran rendr mewn rhai rhannau o Gymru ac roedd ganddi ei stoc unigryw ei hun o nodweddion arddulliadol. Mae manylion megis ffug uniadau, rhigolau a cherrig nadd rystig, ac elfennau pensaernïol fel architrafau a chorneisi oll yn rhan o'r traddodiad addurniadol nodedig hwn. Nid yn unig y gall gwyngalch a rendr traddodiadol fod yn rhan bwysig o gymeriad pensaernïol eich adeilad, gallant hefyd chwarae rôl hollbwysig o ran ei berfformiad.

Prif nodwedd wal yw'r deunydd adeiladu ei hun ac fel arfer, ni ddylai'r gwaith pwyntio fod yn fwy amlwg yn weledol, er y gall fod yn hanesyddol. Ceir enghreifftiau o waith pwyntio addurniadol weithiau ond mae'n gymharol brin. Gall newidiadau i gymeriad gwaith pwyntio fod yn ffisegol ac yn weledol niweidiol.

Cadwch yr holl ddeunyddiau a gorffeniadau hanesyddol pryd bynnag y bo'n ymarferol; atgyweiriwch lle y bo angen; parchwch gymeriad a etifeddwyd wrth wneud unrhyw waith adnewyddu.

2.4 Manylion $\neg$

Gall y gwaith cynllunio a'r crefftwaith a fuddsoddwyd mewn adeilad fod yn rhan bwysig o'i ddiddordeb arbennig. Gall popeth — o bortsh i barapet, neu o flaen siop i arwyddfwrdd — gyfrannu at gymeriad cyffredinol yr adeilad. Mae nodweddion sy'n rhan o arwyddocâd yr adeilad yn haeddu cael eu trin yn ofalus.

Mae drysau a ffenestri yn darparu tystiolaeth werthfawr am oedran a datblygiad adeiladau hanesyddol a'r defnydd a wnaed ohonynt. Mae'r elfennau hyn yn aml yn rhan annatod o gynllun yr adeilad hefyd, o ran eu maint a'u lleoliad yn ogystal ag o ran manylion fframiau drysau, celfi drysau a phatrwm gwydro ffenestri, er enghraifft.

Roedd ffenestri yn arbennig yn amrywio yn ôl dyddiad, swyddogaeth ac ardal. Gallai fod gan rannau gwahanol o'r un adeilad ffenestri o fath gwahanol a all fod yn dystiolaeth o newidiadau blaenorol neu a all ddynodi gwahaniaethau o ran defnydd a statws. Mae ffenestri yn aml yn un o elfennau pensaernïol pwysicaf unrhyw adeilad ac mae eu harddull a'u maint yn cael cryn effaith ar ei gymeriad a'i olwg.

Yn ogystal â dangos yn glir pa ddefnydd a wnaed o'r adeilad yn y gorffennol, mae blaenau siopau hefyd yn nodweddion sydd yn ymgorffori traddodiadau nodedig gwaith cynllunio a chrefftwaith. Mae eu hamrywiaeth yn elfen bwysig o gymeriad aneddiadau hanesyddol. Mae nodweddion gwerthfawr megis bleinds mewn blychau bleinds, caeadau mewn blychau caeadau, a'r waliau o dan ffenestri siopau ('stall-risers') yn aml wedi'u cuddio o dan arwynebau diweddarach. Mae'n werth cadw golwg amdanynt pan fo cynigion i wneud gwaith i flaenau siopau.

Cadwch fanylion hanesyddol pryd bynnag y bo modd; atgyweiriwch lle y bo angen; adferwch lle y bo'n briodol a pharchwch gymeriad hanesyddol wrth wneud unrhyw waith adnewyddu.

Ni fydd ffenestri UPVC, er enghraifft, yn dderbyniol fel arfer: mae eu nodweddion yn wahanol iawn i nodweddion ffenestri traddodiadol, sy'n golygu eu bod yn debygol o fod yn niweidiol i gymeriad a golwg yr adeilad.

2.5 Y Tu Mewn i Adeiladau ⇧

Gall y cynllun a'r manylion y tu mewn i adeiladau hefyd fod yn dystiolaeth bwysig o'u dyddiad a'u datblygiad yn ogystal â'u swyddogaeth a'u statws. Hyd yn oed lle nad oes fawr ddim manylion wedi goroesi, gall ardaloedd mewnol a phatrymau cylchredeg fod yn arwyddocaol.

Mae grisiau, paneli, caeadau, drysau a fframiau drysau, lleoedd tân, brestiau simneiau a mentyll simneiau, trawstiau a distiau, er enghraifft, yn aml yn elfennau pwysig yng nghynllun cyffredinol yr adeilad. Mae ansawdd crefftwaith hefyd yn helpu i nodi statws yr adeilad. Mae gorffeniadau wal hanesyddol, megis gwaith plastr traddodiadol ac arwynebau lloriau, megis hen loriau estyllog, plastr a choblau wedi'u palmentu, oll yn nodweddion gwerthfawr sydd wedi goroesi y mae'n werth eu cadw.

Mae gwaith plastr traddodiadol yn werth ei gadw, nid yn unig oherwydd ei ddiddordeb hanesyddol, ond hefyd oherwydd ei nodweddion inswleiddio da a'r ffaith ei fod yn gallu dygymod yn well â symudiad lleithder na phlastrau modern. Mae hefyd yn syniad da bod yn effro i'r posibilrwydd bod manylion prin a bregus, megis cynlluniau lliw cynnar, addurniadau wedi'u peintio, neu bapurau wal prin, wedi goroesi.

Cadwch y cynllun a'r manylion y tu mewn pryd bynnag y bo modd; atgyweiriwch lle y bo angen.

3. Adeiledd, Cyflwr a Pherfformiad ⇧

Mae'n bwysig eich bod yn deall adeiladwaith a chyflwr eich adeilad rhestredig, a'r ffordd y bwriadwyd iddo berfformio cyn i chi ystyried gwneud unrhyw newidiadau fel na fyddwch yn amharu ar ei gyfanrwydd strwythurol nac yn tanseilio ei berfformiad.

3.1 Deall yr Adeiledd ⇧

Mae deall adeiledd a dyluniad eich adeilad a'r gwahanol rannau ohono, yn ogystal â natur y deunyddiau a'r ffordd y maent wedi'u defnyddio, yn fan cychwyn pwysig wrth ystyried gwaith atgyweirio, gwaith adnewyddu neu waith addasu, er mwyn sicrhau bod eich cynigion yn cyd-fynd â'r adeiladwaith presennol. Gall deall effaith newidiadau blaenorol i'r adeiledd helpu i nodi cyfleoedd i wneud newidiadau yn y dyfodol.

Mae hefyd yn bwysig monitro ac atgyweirio unrhyw broblemau strwythurol cyn iddynt arwain at ddiffygion. Mewn adeiladau a adeiladwyd yn draddodiadol, mae rhywfaint o symud yn naturiol ac fel arfer gellir darparu ar ei gyfer heb anhawster. Fodd bynnag, weithiau, gall symud a sadio dros amser achosi problemau strwythurol. Gall ffactorau eraill megis lleithder a phydredd hefyd effeithio ar gyfanrwydd strwythurol adeilad. Efallai fod diffygion strwythurol mewn adeiladau hanesyddol i'w priodoli i'w hoedran, i'r dull adeiladu, a'r defnydd a wnaed ohonynt yn y gorffennol. Mae'n bosibl bod newidiadau sydd wedi'u gwneud yn ystod oes adeilad, megis dileu elfennau strwythurol neu gyflwyno deunyddiau anghydnaws, wedi gwneud niwed iddo.

3.2 Deall Cyflwr $\neg$

Hyd yn oed cyn i chi ddechrau meddwl am wneud newidiadau, mae'n syniad da deall beth yw cyflwr presennol eich adeilad rhestredig. Mae'n bosibl bod gan eich awdurdod cynllunio lleol adroddiad diweddar sy'n rhoi cipolwg ar ei gyflwr cyffredinol, ac a gafodd ei lunio wrth gynnal arolwg o gyflwr pob adeilad rhestredig yng Nghymru. Ond, wrth ystyried gwneud unrhyw waith, mae'n fwy na thebyg y bydd angen i berchenogion gomisiynu arolwg manylach oddi wrth gynghorydd cymwysedig a chymwys ar adeiladau hanesyddol sydd hefyd wedi'i achredu ym maes cadwraeth os oes modd.

3.3 Deall Perfformiad $\neg$

Mae gan adeiladau a adeiladwyd yn draddodiadol (ni waeth beth fo'u hansawdd pensaernïol) waliau cadarn wedi'u hadeiladu o ddeunyddiau mandyllog. Mae cerrig, brics, pren a phridd ar y cyd â morterau calch, gwyngalch neu rendr yn galluogi adeiladau i 'anadlu' — golyga hyn y gellir amsugno ac anweddu lleithder. Yng Nghymru, defnyddiwyd pob un o'r deunyddiau hyn mewn adeiladau traddodiadol ond roedd eu cyfuniad penodol a'r dulliau adeiladu yn amrywio yn ôl amser, lle a swyddogaeth. Yn gyffredinol, mae adeiladau a godwyd cyn 1919 yn defnyddio dulliau adeiladu traddodiadol.

Ar y llaw arall, mae dulliau adeiladu modern yn defnyddio deunyddiau anhydraidd cryf, megis sment a choncrit, y bwriedir iddynt gadw lleithder allan. Mae angen i waith atgyweirio neu ymyriadau eraill i adeiladau a godwyd gan ddefnyddio dulliau modern barchu'r nodweddion hyn. Os defnyddiwyd ddeunyddiau modern gyda dulliau adeiladu traddodiadol, gallwch ddifrodi eich adeilad drwy ddal lleithder a'i wneud yn llai hydraidd, neu drwy ei wneud yn llai abl i ymdopi â symudiadau strwythurol. Ni waeth beth fo'r dull adeiladu, mae angen i newidiadau i adeiladau barchu eu nodweddion perfformiad er mwyn osgoi eu niweidio.

4. Rheoli Newid $\neg$

Dylech ddeall arwyddocâd eich adeilad rhestredig a cheisio cyngor arbenigwr cymwysedig a chymwys — yn benodol, un sydd wedi'i achredu ym maes cadwraeth — cyn i chi ystyried newid yr adeilad mewn unrhyw fodd.

Gall deall adeiladwaith yr adeilad, y dystiolaeth hanesyddol y mae'n ei chyflwyno a'i nodweddion strwythurol a'i nodweddion perfformiad helpu i lywio eich penderfyniadau ynghylch newid, yn ogystal â'ch asesiad o'r effaith ar dreftadaeth.¹⁰

Mae *Egwyddorion Cadwraeth*¹¹ Cadw yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod newid yn rhan anochel o'r broses o reoli adeiladau hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy. Mae newidiadau'n cynnwys llawer o fathau o weithgarwch, gan amrywio o waith atgyweirio ac adnewyddu ar y naill law i waith newydd neu waith addasu ar y llaw arall.

Rhaid i newidiadau a fyddai'n effeithio ar gymeriad eich adeilad rhestredig gael eu hawdurdodi drwy'r broses ceisio cydsyniad adeilad rhestredig, a weinyddir gan eich awdurdod cynllunio lleol. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau cynllunio lleol i roi sylw arbennig i ba mor ddymunol yw cadw'r adeilad neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol arbennig sydd ganddo (gweler adran 5).¹²

4.1 Cynnal a Chadw ⇐

Gwaith rheoli a gwaith cynnal a chadw priodol, sy'n cael ei gynllunio a'i wneud yn rheolaidd, yw hanfod cadwraeth dda. Yn y bôn, mae cynnal a chadw yn golygu cynnal archwiliadau rheolaidd i archwilio cyflwr eich adeilad a'r hyn sydd o'i amgylch, a gwneud gwaith atgyweirio amserol os caiff namau eu canfod. Mae'n debyg mai hwn yw'r cam pwysicaf y gallwch ei gymryd i ddiogelu eich adeilad rhestredig. Drwy nodi problemau bach yn gynnar, gallwch atal difrod difrifol a'r angen am waith atgyweirio drud yn nes ymlaen. Am ragor o wybodaeth am waith cynnal a chadw, gweler Cynnal a Chadw!¹³

Y perchennog sy'n gyfrifol am gyflwr ei adeilad ac nid yw'r ffaith ei fod wedi'i restru yn gosod unrhyw rwymedigaeth ychwanegol i gynnal a chadw'r adeilad i safon ragnodedig. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol amryfal fesurau a phwerau y gallant eu defnyddio pan fo cyflwr adeilad rhestredig yn cael effaith andwyol ar amwynder a budd y cyhoedd. Dim ond pan fo pwerau 'meddal', megis annog a chyd-drafod wedi methu y dylid defnyddio'r pwerau hynny, ond o dan amgylchiadau o'r fath, gall cymryd camau gorfodi cymesur mewn da bryd helpu i roi ail gyfle i adeiladau rhestredig.¹⁴

Fel arfer ni ddylai fod angen cydsyniad adeilad rhestredig arnoch i wneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd priodol, ond byddai'n well i chi ofyn am gyngor neu gadarnhau hynny gyda'ch awdurdod cynllunio lleol er mwyn bod yn siŵr. Mae angen cydsyniad i beintio neu ailbeintio tu allan neu du mewn adeilad rhestredig pe byddai hynny'n effeithio ar gymeriad yr adeilad.

4.2 Atgyweirio ⇐

Dylech geisio gwneud cyn lleied o waith atgyweirio ag sydd ei angen i sefydlogi a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau y bydd yn goroesi yn yr hirdymor ac er mwyn bodloni'r gofynion o ran parhau i'w ddefnyddio. Cyn i chi ystyried unrhyw waith atgyweirio mae'n bwysig nodi gwraidd y broblem er mwyn sicrhau eich bod yn gwneud mwy na dim ond trin y symptom. Gall fod mwy nag un ffactor perthnasol nad yw'n amlwg ar yr olwg gyntaf, megis dŵr yn dod i mewn neu fethiant strwythurol.

Argymhellir yn gryf y dylech geisio cyngor arbenigwr cymwysedig a chymwys. Bydd hynny nid yn unig yn helpu'r anwybodus i osgoi cymryd cam gwag, ond bydd hefyd yn dileu'r risg o ailadrodd camgymeriad cynharach a all fod yn amhriodol, a all niweidio'r adeilad ac efallai arwain at fwy o gostau i chi.

Fel arfer dylai atgyweiriadau fod yn rhai bach, sy'n adfer ac yn atgyfnerthu'r adeiladwaith lle y bo angen. Fel arfer bydd yn briodol defnyddio deunyddiau neu dechnegau sy'n debyg iawn i'r rhai sy'n cael eu hatgyweirio. Mae'n bwysig eu bod yn atgynhyrchu golwg a nodweddion ffisegol y gwaith gwreiddiol fel eu bod yn ymateb ac yn perfformio yn yr un ffordd dros amser. O dan rai amgylchiadau, efallai mai deunyddiau modern a fydd yn cynnig yr ateb gorau o ran cadwraeth, os bydd eu defnyddio yn golygu y gellir cadw mwy o'r adeiladwaith hanesyddol, neu os bydd deunyddiau gwreiddiol wedi methu, neu fod y dyluniad gwreiddiol yn ddiffygiol. Er enghraifft, ceir cryfhau trawstiau â gwaith metel yn lle rhoi trawstiau newydd yn eu lle.

Dylai'r gwaith atgyweirio a wnewch osgoi'r angen am waith cynnal a chadw dwys sy'n debygol o fod yn anodd ei gynnal.

Gall gwaith atgyweirio effeithio ar rywogaethau a warchodir, megis ystlumod, a dylid trefnu bod ymgynghorydd ecolegol cymwysedig a chymwys yn cynnal arolwg priodol.¹⁵

Fel arfer, nid oes angen i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig i wneud gwaith atgyweirio gan ddefnyddio'r deunyddiau a'r technegau a ddefnyddiwyd yn wreiddiol, ond mae'n werth ceisio cyngor yn gyntaf oherwydd gall y meini prawf ar gyfer gwaith atgyweirio o'r fath fod yn llym iawn. Er enghraifft, efallai fod cerrig neu lechi wedi dod o chwarel nad yw'n bodoli mwyach; efallai na fydd y deunyddiau sy'n cyfateb orau i'r rhai gwreiddiol yn dod o'r un ffynhonnell.

Fel arfer, bydd angen i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig i wneud gwaith atgyweirio nad yw'n cyfateb yn union i'r adeiladwaith hanesyddol presennol, neu sy'n golygu bod angen symud cryn dipyn o ddeunydd hanesyddol. Os nad ydych yn siŵr, dylech ymgynghori â swyddog cadwraeth eich awdurdod cynllunio lleol.

4.3 Gwaith Adnewyddu Cyfnodol $\neg$

Efallai y byddwch yn gweld bod angen ymgymryd â gweithgarwch adnewyddu helaethach (megis ail-doi neu ail-rendro) weithiau er mwyn sicrhau bod modd parhau i ddefnyddio adeilad. Dylai unrhyw elfen o adeilad sy'n cael ei hadnewyddu gyd-fynd yn weledol ac yn ffisegol â'r adeiladwaith presennol er mwyn cadw cymeriad pensaernïol yr adeilad a pharchu ei berfformiad traddodiadol.

Efallai y bydd angen rhaglen gofnodi cyn mynd ati i wneud gwaith adnewyddu, a hefyd wrth i'r gwaith hwnnw gael ei wneud, er mwyn gwneud iawn am golli adeiladwaith gwreiddiol a manteisio ar y cyfle i ddysgu mwy am yr adeilad a'i ddatblygiad hanesyddol. Er enghraifft, efallai y bydd y gwaith o ailrendro wal yn datgelu tystiolaeth bwysig o gyfnodau cynharach yn hanes yr adeilad, neu efallai y bydd y gwaith o adnewyddu

gorchudd to yn datgelu sut y cafodd ei osod yn wreiddiol. Mae'n bosibl y bydd cofnodi'n un o amodau'r cydsyniad adeilad rhestredig.

Gall gwaith atgyweirio effeithio ar rywogaethau a warchodir, megis ystlumod, a dylid trefnu bod ymgynghorydd ecolegol cymwysedig a chymwys yn cynnal arolwg priodol.¹⁶

Mae'n bosibl y bydd angen i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig i wneud gwaith adnewyddu a dylech gysylltu â swyddog cadwraeth eich awdurdod cynllunio lleol i gael cyngor.

4.4 Adfer ac Ailadeiladu ⇐

Dim ond os bydd yn gwella'r adeilad ac yn ei wneud yn fwy dichonadwy ac os bydd yn seiliedig ar dystiolaeth ddilys a phendant y gellir cyfiawnhau adfer neu ailadeiladu elfennau o adeilad a gollwyd, a ddinistriwyd neu a ddisodlwyd. Dylech osgoi gwaith ailadeiladu damcaniaethol. Yn yr un modd, dylech osgoi adfer nodweddion a ddisodlwyd yn fwriadol gan ychwanegiadau hanesyddol diweddarach, neu a gollwyd o ganlyniad i ddigwyddiad hanesyddol arwyddocaol. Ar y llaw arall, fel arfer, anogir unigolion i gyflwyno cynigion i atgyweirio difrod a achoswyd gan esgeulustod difeddwl, pydredd a gwaith addasu trws gl neu sydd i'w briodoli i'r ffaith bod yr adeilad wedi'i adael yn wag.

Efallai y bydd yn bosibl cyfiawnhau gwaith ar raddfa fach i adfer manylion coll os yw'n seiliedig ar dystiolaeth dda.

Fel arfer bydd angen i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig i wneud gwaith adfer neu ailadeiladu.

4.5 Gwaith Newydd neu Waith Addasu ⇐

Weithiau gall gwaith newydd neu waith addasu fod yn angenrheidiol neu'n briodol er mwyn sicrhau bod modd parhau i wneud defnydd ymarferol o adeilad yn yr hirdymor neu estyn ei oes. Mae'n rhaid i chi fedru esbonio pam mae angen gwneud y gwaith, a darparu digon o wybodaeth i esbonio effaith eich cynnig ar arwyddocâd yr adeilad. Dylai ansawdd y dyluniad a'r ffordd y'i rhoddir ar waith ychwanegu at werth esthetig yr adeilad a'i leoliad, ac ni ddylai ychwanegiadau fod yn dra amlwg. Dylai unrhyw waith newydd hefyd barchu nodweddion perfformiad yr adeilad. Mae'r deunyddiau a ddewisir a chreffftwaith yn hollbwysig. Mae'r angen i waith newydd fod o safon yn berthnasol ar bob lefel, o ymyriadau bach mewn ystafell hanesyddol, i adeiladau neu ddatblygiadau newydd mawr.

Efallai y bydd angen i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig i wneud gwaith newydd cymharol fân hyd yn oed, megis gosod drws allanol newydd.

4.6 Dymchwel $\neg$

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol ac fel dewis olaf y dylech ystyried dymchwel adeilad rhestredig. Ymhlith y ffactorau y dylid eu hystyried mae cyflwr yr adeilad, cost atgyweirio a chynnal a chadw'r adeilad o'i chymharu â'i arwyddocâd a'r gwerth a allai ddeillio o barhau i'w ddefnyddio, wedi'u pwyso a'u mesur yn erbyn rhinweddau cynigion amgen ar gyfer y safle. Os cafodd adeilad ei esgeuluso'n fwriadol, bydd llai o bwys yn cael ei roi ar y costau hynny. Dylid gwneud ymdrech i sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio'r adeilad gan gynnwys, er enghraifft, cynnig rhydd-ddaliad anghyfyngedig yr adeilad i'w werthu am bris teg ar y farchnad. Fel arfer, nid yw diogelu ffasadau yn unig, na gwagio ac ailadeiladu'r tu mewn i adeiladau, yn sail dderbyniol i'w hailddefnyddio. Dylech ystyried aildddefnyddio'r adeilad rhestredig yn ei gyfanrwydd i ddiwallu'ch anghenion yn hytrach na chymryd y gallwch ddechrau o'r newydd ar safle a gliriwyd.

Bydd angen i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig i ddymchwel adeilad. Fel arfer, ni fydd cydsyniad adeilad rhestredig yn cael ei roi am yr unig reswm bod ailddatblygu adeilad yn fwy deniadol yn economaidd na'i atgyweirio neu ei aildddefnyddio.

4.7 Newid Defnydd $\neg$

Weithiau, ni fydd modd defnyddio adeiladau at y diben a fwriadwyd yn wreiddiol mwyach ac efallai y bydd angen defnyddio adeiladau mewn ffordd newydd er mwyn sicrhau eu dichonoldeb yn yr hirdymor. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos adeiladau fferm, adeiladau diwydiannol ac addoldai neu dai mawr nas defnyddir mwyach, er enghraifft. Bydd newid defnydd bron bob amser yn arwain at golli ffurf, adeiladwaith neu fanylion hanesyddol megis ffitiadau mewnol, ond dylid sicrhau bod cyn lleied o'r nodweddion hyn â phosibl yn cael eu colli er mwyn sicrhau bod y defnydd gwreiddiol yn amlwg o hyd.

Wrth ystyried newid defnydd, mae angen gofalu peidio â gorddatblygu adeilad rhestredig. Er enghraifft, wrth addasu adeilad rhestredig a'i droi'n fflatiau, dylech fod yn realistig ynglŷn â faint o unedau y gellir eu creu. O dan rai amgylchiadau, gall newid defnydd gynnig cyfle i ychwanegu at werth treftadaeth yr adeilad — er enghraifft drwy atgyfnerthu ei werth cymunedol drwy sicrhau ei fod yn fwy hygyrch.

Ym mhob achos, rhaid pwyso a mesur y newid arfaethedig yn erbyn unrhyw niwed i'r ased.

Efallai y bydd angen i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw newidiadau i'r adeilad sy'n gysylltiedig â newid y defnydd ohono. Mae'n debygol y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch er mwyn newid defnydd.

4.8 Mesurau Effeithlonrwydd Ynni $\neg$

Mae dadleuon cryf o blaid cadw adeiladau sy'n bodoli eisoes, ac un o'r rhesymau yw'r ffaith bod codi rhai newydd yn eu lle yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran ynni, carbon a chostau ariannol. Er enghraifft, gall y deunyddiau cadarn a ddefnyddir mewn

llawer o adeiladau traddodiadol olygu nad oes angen gwneud gwaith adnewyddu mor aml a bod angen llai o ynni a charbon yn y tymor hir. Fodd bynnag, cydnabyddir fwyfwy hefyd fod angen gwella effeithlonrwydd thermol adeiladau a lliniaru effaith andwyol y newid yn yr hinsawdd yn unol â Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu.¹⁷ Os caiff y mesurau hyn eu cyflawni'n gywir, mae cyfle gwirioneddol i gael effaith gadarnhaol ar yr adeilad, ar yr amod eich bod yn cadw at y ddwy egwyddor allweddol: yn gyntaf, bod y deunyddiau a ddefnyddir yn briodol ar gyfer yr adeilad, a bod anwedd dŵr, fel arfer, yn gallu treiddio drwyddynt, ac yn ail, bod awyru digonol.

Gall adeiladau hanesyddol gael budd o fesurau effeithlonrwydd ynni sy'n seiliedig ar wybodaeth, ond ni fydd mesurau a gynlluniwyd ar gyfer adeiladau modern, o reidrwydd, yn briodol i adeiladau traddodiadol, sy'n perfformio mewn ffordd wahanol iawn. O ystyried yr hinsawdd yng Nghymru, gallai defnyddio deunyddiau a dulliau safonol (megis inswleiddio waliau allanol neu inswleiddio waliau dwbl) olygu y gallai adeiladwaith adeiladau hanesyddol gael ei ddifrodi, neu gallai achosi niwed i iechyd y bobl sy'n eu meddiannu. Mae'n bosibl hefyd na fyddant yn arwain at yr arbedion disgwylidig o ran ynni oherwydd bod perfformiad y rhan fwyaf o adeiladau hanesyddol yn well o lawer nag a awgrymir gan y dulliau asesu presennol.

Fel gydag ymyriadau eraill, deall yr adeilad yw'r cam cyntaf hollbwysig. Mae hyn yn golygu bod modd dadansoddi perfformiad thermol yr adeilad er mwyn nodi a chynllunio mesurau effeithlonrwydd ynni priodol a fydd yn lleihau'r risg o niwed. Gall fod rhywfaint o le i wella'r adeiladwaith drwy ymyriadau sy'n gydnaws â golwg a pherfformiad adeiladau traddodiadol, ond gall fod mesurau syml, isel eu heffaith hefyd y gallech eu cymryd — er enghraifft gwella systemau gwresogi, atgyweirio ffenestri, ailddefnyddio caeadau, atal drafftiau neu hyd yn oed ddefnyddio llenni trwm. Bydd cadw'r adeilad mewn cyflwr da yn helpu ynddo'i hun i wella'i effeithlonrwydd ynni a hwnnw yw'r cam cyntaf hanfodol cyn cymryd unrhyw gamau eraill.

Mae hwn yn faes cymhleth a dylech geisio cyngor cyn i chi ystyried unrhyw fesurau ôl-ffitio a fyddai'n effeithio ar yr adeiladwaith hanesyddol.¹⁸ Gall hefyd fod rhywfaint o le i gyflwyno mesurau microgynhyrchu.¹⁹

Mae'n bosibl y bydd angen cydsyniad adeilad rhestredig arnoch ar gyfer rhai mesurau effeithlonrwydd ynni: mae'n llai tebygol y bydd angen cydsyniad ar fesurau isel eu heffaith.

4.9 Hygyrchedd ¬

I'r graddau y mae hynny'n bosibl, dylai adeiladau hanesyddol fod yn hygyrch i bawb — yn enwedig yr adeiladau hynny lle darperir gwasanaethau i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mewn rhai adeiladau, gall nodweddion sy'n elfennau hanfodol o gymeriad yr adeilad fod yn rhwystrau ffisegol i fynediad, er enghraifft, drysau cul bwthyn neu risiau mawreddog plasty. Gall cymeriad pensaernïol cryf rhai adeiladau hefyd gyfyngu ar yr opsiynau ar gyfer gwella. Ond, drwy fod yn barod i ystyried dulliau gweithredu llawn dychymyg ac arloesol, gallwch sicrhau bron bob amser bod adeilad yn hygyrch heb amharu ar ei ddiddordeb hanesyddol.²⁰

Bydd angen i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer newidiadau i wella mynediad. O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd angen i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwelliannau dros dro.

4.10 Glanhau ↗

Gall glanhau gael cryn effaith ar gymeriad adeilad rhestredig ac fel arfer, dylai gael ei wneud gan gontractwyr arbenigol. Dim ond os bydd yn angenrheidiol ac yn werthchweil y bydd yn briodol, er enghraifft, i gael gwared ar faw cyrydol. Gall technegau amrwd ddifrodi wynebau adeiladau'n ddifrifol a golygu bod manylion yn cael eu colli, felly mae'n bwysig denyddio'r dechneg lanhau briodol ar gyfer y deunydd dan sylw. Mae hynny'n golygu y dylid profi'r dechneg lanhau ar rannau o'r adeilad nad ydynt yn rhai amlwg cyn mynd ati i lanhau'r adeilad cyfan.

Gweler y cyfeiriadau o dan Gwybodaeth Bellach i gael rhagor o arweiniad yn hyn o beth.

Dylai'ch awdurdod cynllunio lleol fod yn gallu rhoi cyngor i chi ar dechnegau priodol ac ynghylch pryd y mae angen i chi wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig er mwyn gwneud gwaith glanhau.

Efallai y bydd angen i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig i wneud gwaith glanhau.

4.11 Dogfennu a Chofnodi ↗

Mae'n bwysig cofnodi'r penderfyniadau a wneir pan wneir newidiadau i adeilad rhestredig, a dysgu ohonynt.

Pan fydd rhan o adeilad hanesyddol, neu'r adeilad cyfan hyd yn oed, yn cael ei cholli/golli neu ei newid, mae'n arfer da manteisio ar y cyfle i gofnodi'r elfennau o'r adeilad a fydd yn cael eu dileu neu eu newid, ac i ymchwilio i'r nodweddion hynny a'u dadansoddi. Mae'n arfer da hefyd gofnodi nodweddion a ddatgelir wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Gallwch gael cyngor am y lefel a'r safon briodol o gofnodi oddi wrth eich awdurdod cynllunio lleol, ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, neu Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC).

Dylai'r wybodaeth a gesglir wrth fynd ati i ddeall ac asesu arwyddocâd adeilad hanesyddol gael ei chadw, a dylid rhoi copi yn y cofnod o'r amgylchedd hanesyddol lleol ac yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sef archif genedlaethol Cymru, sy'n cael ei chynnal gan CBHC.

Mae'n bosibl y bydd cofnodi'n un o amodau'r cydsyniad adeilad rhestredig.

5. Proses Cydsyniad Adeilad Rhestredig ⇐

5.1 Beth yw Cydsyniad Adeilad Rhestredig? ⇐

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw newid neu estyniad a fyddai'n effeithio ar gymeriad eich adeilad rhestredig fel un sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae'n rhaid i chi gael cydsyniad adeilad rhestredig hefyd i ddymchwel adeilad rhestredig.²¹

Mae'r gofyniad hwn yn gymwys i bob rhan o'r adeilad rhestredig, y tu mewn a'r tu allan iddo, yn ogystal ag unrhyw wrthrychau a strwythurau sydd ynghlwm wrtho, ni waeth beth fo maint y nodwedd a ph'un ai a gyfeirir ati yn y disgrifiad ar y rhestr ai peidio. Gall gosodiadau gynnwys, er enghraifft, paneli ar waliau neu leoedd tân, sy'n amlwg yn rhan o'r adeilad. Gall gwrthrychau ar eu traed eu hunain, megis cerfluniau, fod yn osodiadau hefyd os ydynt yn rhan o'r cynllun pensaernïol cyffredinol. Bydd angen cael cydsyniad ar gyfer rhai mathau o waith atgyweirio ac adnewyddu ar adeiladau rhestredig ac ar gyfer gwaith adfer ac ailadeiladu, gwaith newydd neu waith addasu, gwaith dymchwel a newidiadau sy'n gysylltiedig â newid defnydd, os bydd y gwaith hwnnw'n effeithio ar gymeriad yr adeilad fe un sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae bob amser yn syniad da gofyn i'r awdurdod cynllunio lleol a oes angen cydsyniad adeilad rhestredig.

Mae'n drosedd gwneud gwaith o'r fath heb gael cydsyniad adeilad rhestredig cyn dechrau ar unrhyw waith.

Gwneir ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig i awdurdodau cynllunio lleol. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn benodol pa mor ddymunol yw diogelu'r²² adeilad neu ei leoliad²³ neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo.²⁴ Y nod yw dod o hyd i'r ffordd orau o ddiogelu a gwella nodweddion arbennig adeiladau rhestredig a pharhau i wneud defnydd cynaliadwy o'r adeiladau hynny. Felly, caiff ceisiadau eu hystyried yn ôl eu teilyngdod a bydd rhagdybiaeth o blaid diogelu adeiladau rhestredig a'u lleoliadau.

Strwythurau Cwrttil

Mae strwythurau cwrttil yn atodol neu'n eilradd i'r adeilad rhestredig. Maent yn rhan o'r tir sydd ynghlwm wrtho, a dyna'r sefyllfa ers cyn 1 Gorffennaf 1948. Yn ôl y gyfraith, ystyrir bod strwythurau cwrttil o'r fath yn rhan o'r adeilad rhestredig.²⁵ Ni fydd newidiadau o ran pwy sy'n berchen ar yr adeilad neu'n ei feddiannu, neu o ran y defnydd a wneir ohono ar ôl iddo gael ei restru, yn effeithio ar y statws rhestredig hwnnw. Mae enghreifftiau o strwythurau cwrttil yn cynnwys waliau terfyn a thai allan.

Bydd eich awdurdod cynllunio lleol yn gallu dweud wrthyhych a yw strwythur o fewn cwrttil adeilad rhestredig ai peidio ond, yn y pen draw, mae'n bosibl mai mater i'r llysoedd fydd y penderfyniad. Mae angen ymdrin â phob achos unigol ar sail y ffeithiau, ond dyma'r prif ffactorau i'w hystyried:

- cynllun ffisegol yr adeilad rhestredig a'r strwythurau eraill
- a gafodd y strwythurau eu hadeiladu cyn 1948 ai peidio

- pwy sy'n berchen ar yr adeilad rhestredig a'r strwythurau eraill ar hyn o bryd a phwy oedd yn berchen arnynt pan gawsant eu rhestru
- y defnydd a wneir o'r strwythurau, a'u swyddogaeth, yn benodol a oeddent yn gwasanaethu dibenion yr adeilad rhestredig pan gafodd ei restru
- a yw'r strwythurau'n rhan o'r tir.

Bydd arwyddocâd a gwerth strwythurau cwrttil yn amrywio yn ôl natur y berthynas rhyngddynt a'r prif adeilad, ac yn ôl eu cyfanrwydd a'u rhinwedd cynhenid. Ni fydd gwaith ar strwythur cwrttil yn effeithio ar gymeriad yr adeilad rhestredig bob tro, naill am mai ychydig yn unig o effaith a gaiff y gwaith ei hun, neu oherwydd nad yw'r strwythur cwrttil yn gwneud cyfraniad mawr at ddiddordeb arbennig yr adeilad rhestredig. Eich awdurdod cynllunio lleol fydd yn penderfynu a fydd angen cydsyniad adeilad rhestredig ai peidio, ar sail yr ystyriaethau isod:

- a yw strwythur o fewn cwrttil adeilad rhestredig ai peidio
- arwyddocâd y strwythur o ran y berthynas rhyngddo a'r adeilad rhestredig
- yr effaith y gall y newidiadau i'r strwythur cwrttil ei chael ar y prif adeilad.

Yn ôl Egwyddorion Cadwraeth Cadw,²⁶ disgwylir i awdurdodau cyhoeddus wneud penderfyniadau ynghylch newidiadau drwy arfer arbenigedd, profiad a barn, mewn modd cyson a thryloyw sy'n cael ei lywio gan y gyfraith a pholisi. Dylent gynnal lefel ddigonol o asesu ac ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn llywio a chyfiawnhau'r penderfyniadau a wneir ganddynt. Disgwylir i awdurdodau cyhoeddus roi sylw priodol i werthoedd treftadaeth safle wrth ystyried pa mor addas yw cynigion a gyflwynir iddynt.

Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar geisiadau gan awdurdodau lleol am gydsyniad adeilad rhestredig,²⁷ gan wneud hynny ar ran Gweinidogion Cymru. Mae Cadw yn darparu asesiad o'r gwaith arfaethedig er mwyn helpu gyda'r penderfyniad. Fel arfer, yr awdurdod cynllunio lleol sy'n penderfynu ar geisiadau gan y Llywodraeth.

Mae rhai enwadau'n cael eu hesemptio o'r broses cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer adeiladau eglwysig sy'n parhau'n addoldai, ar yr amod eu bod wedi sefydlu systemau rheoli, ymgynghori a chraffu mewnol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru. Gelwir hyn yn Esemptiad Eglwysig.²⁸

5.2 Cael Cyngor Proffesiynol ⇢

Bydd gofyn ichi gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda'ch cais am gydsyniad adeilad rhestredig, felly mae'n syniad da ceisio cyngor priodol wrth lunio eich cynigion ar gyfer newid.²⁹ Bydd y broses o asesu'r effaith ar dreftadaeth yn eich helpu i fod yn glir am eich amcanion ac i nodi'r opsiwn gorau ar gyfer eich adeilad rhestredig chi. Oherwydd natur arbenigol gwaith ar adeiladau rhestredig, dylech gyflogi pensaer, syrfêwr neu beirannydd strwythurol cymwysedig, sydd â phrofiad o weithio ym maes adeiladau hanesyddol yng Nghymru, o'r dechrau un. Bydd gan weithwyr proffesiynol a achredwyd ym maes cadwraeth wybodaeth briodol, a dylai fod yn gallu cynnig cyngor doeth i chi ar bob un o'r materion uchod.

Yn yr un modd, dylai fod gan unrhyw un sy'n gwneud gwaith ar adeiladau hanesyddol y sgiliau crefft arbenigol priodol i wneud y gwaith. Mae gwaith ar adeiladau hanesyddol yn chwarae rôl bwysig o ran datblygu a chynnal sgiliau crefft arbenigol gwerthfawr.

5.3 Cael Cyngor Cyn Ymgeisio ⇐

Cyn cyflwyno cais am gydsyniad adeilad rhestredig, mae'n syniad da ceisio cyngor eich awdurdod cynllunio lleol. Dylai hyn eich rhoi ar y trywydd cywir ac osgoi unrhyw bethau annisgwyl yn ddiweddarach yn y broses.³⁰ Mae awdurdodau cynllunio lleol yn cynnig gwasanaeth cyn ymgeisio dewisol ar gyfer ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, ac mae'n bosibl y byddant yn codi tâl am y gwasanaeth hwnnw. Maent hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori cyn ymgeisio statudol ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio, gan godi tâl am y gwasanaeth.³¹

Pan fo'r newidiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar arwyddocâd yr adeilad, gall Cadw hefyd gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyn ymgeisio, ochr yn ochr â'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd Cadw yn gallu trafod y polisiau a'r egwyddorion cyffredinol a fydd yn berthnasol wrth ystyried eich cynigion a gallant hefyd roi cyngor ar arwyddocâd yr adeilad rhestredig. Ni all staff Cadw drafod rhinweddau achosion penodol ar ôl i gais gael ei gyflwyno. Mae'n bosibl y bydd y cymdeithasau amwynderau (gweler Cysylltiadau) a sefydliadau fel Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Theatrau yn gallu cynnig cyngor cyn ymgeisio.

Dylai'ch awdurdod cynllunio lleol fod yn gallu rhoi cyngor i chi hefyd yn ystod y trafodaethau cyn ymgeisio am unrhyw faterion sy'n ymwneud â gwarchod natur.³²

5.4 A oes angen caniatâd cynllunio? ⇐

Efallai y bydd angen i chi gael caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth rheoliadau adeiladu hefyd ar gyfer rhai mathau o waith ar adeiladau rhestredig ac ar gyfer newid defnydd. Mae cydsyniad adeilad rhestredig yn ychwanegol at ganiatâd cynllunio a chymeradwyaeth rheoliadau adeiladu, ac ar wahân iddynt. Ni fydd penderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn golygu, o reidrwydd, y caiff cydsyniad adeilad rhestredig ei roi. Os bydd angen caniatadau eraill, dylech wneud y ceisiadau ar yr un pryd.

5.5 Cyflwyno eich Cais ⇐

Dylai eich cais fod yn gyflawn a chynnwys cryn dipyn o dystiolaeth er mwyn i'r awdurdod cynllunio lleol fedru ei ystyried mewn ffordd effeithiol ac amserol. Dylech wneud eich cais ar y ffurflen a ddarperir ar wefan pob awdurdod cynllunio lleol neu ffurflen IAPP Llywodraeth Cymru sydd ar gael ar-lein.³³ Mae'n rhaid anfon tystysgrif sy'n nodi mai chi yw'r perchennog, neu eich bod wedi cyflwyno hysbysiad i'r perchennog, gyda'r ffurflen.

Dylech roi digon o wybodaeth berthnasol i'r awdurdod cynllunio lleol i'w alluogi i asesu effaith debygol y cynigion ar ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol arbennig yr adeilad a'i leoliad. Bydd angen i chi gynnal asesiad o'r effaith ar dreftadaeth a chyfiawnhau eich cynigion mewn datganiad am yr effaith ar dreftadaeth.

Dylai eich datganiad am yr effaith ar dreftadaeth esbonio'r gwaith arfaethedig, gan gyfeirio at unrhyw ffotograffau, planiau a lluniadau cysylltiedig, yr hyn yr ydych yn bwriadu ei gyflawni, a pham mae'r gwaith yn ddymunol neu'n angenrheidiol. Dylech ddisgrifio arwyddocâd y rhan o'r adeilad rhestredig sydd o dan sylw ac asesu effaith y gwaith arfaethedig. Bydd angen i chi ddangos sut a pham y dewiswyd y cynllun a ffefrir ar gyfer y newidiadau neu'r estyniadau, gan gynnwys unrhyw fesurau i leihau niwed. Bydd angen i chi hefyd gynnwys datganiad mynediad yn eich datganiad am yr effaith ar dreftadaeth ar gyfer unrhyw waith a fydd yn effeithio ar y trefniadau mynediad i unrhyw ran, neu y tu mewn i unrhyw ran, o'ch adeilad rhestredig nad yw'n cael ei defnyddio fel annedd breifat.³⁴ Dylai'r datganiad am yr effaith ar dreftadaeth fod yn gymesur â'r cynigion a'u heffaith debygol; er enghraifft, bydd angen rhoi sylw manylach i gynllun adfer mawr nag i gais i beintio adeilad nad yw wedi cael ei beintio o'r blaen neu i dynnu rendr er mwyn datgelu gwaith cerrig. Mae rhagor o wybodaeth am ddatganiadau am yr effaith ar dreftadaeth yn *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*.³⁵

Os yw'r cynigion yn debygol o effeithio ar unrhyw fuddiannau cadwraeth natur neu unrhyw rywogaethau a warchodir gan Ewrop, mae'n rhaid i chi gynnwys gyda'ch cais ganlyniadau unrhyw arolwg ecolegol ac argymhellion ar gyfer mesurau lliniaru a allai effeithio ar adeiladwaith yr adeilad rhestredig.

Os ydych yn gwneud cais i ddymchwel adeilad rhestredig, bydd yn rhaid i chi gofnodi sut yr ydych wedi gwneud pob ymdrech resymol i gadw'r defnydd presennol o'r adeilad neu i ddod o hyd i ffyrdd newydd ymarferol o'i ddefnyddio, a pham mae'r ymdrechion hynny wedi methu. Dylech hefyd ddarparu gwybodaeth am gyflwr yr adeilad, am gost ei atgyweirio a'i gynnal a'i gadw o'i chymharu â'i bwysigrydd a'r gwerth a geir o barhau i'w ddefnyddio. Mae hyn yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn y rhestr gyfeirio isod Gallwch hefyd gyflwyno dadleuon ynghylch sut y byddai ailddatblygu'r safle yn sicrhau manteision sylweddol i'r gymuned a fyddai'n bwysicach na cholli'r adeilad rhestredig.³⁶

Dylech gysylltu â'ch awdurdod cynllunio lleol bob amser i ofyn a oes angen rhagor o wybodaeth arno, er enghraifft, rhestr waith, adroddiad strwythurol, asesiad hanesyddol neu archaeolegol neu gynllun rheoli cadwraeth.

Nid yw'r rhestr gyfeirio isod o ddogfennau ategol yn un gyflawn. Ni fydd angen pob un ohonynt ym mhob achos; ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd angen dogfennau ategol ychwanegol weithiau; er enghraifft, asesiad archaeolegol.

Dylai dogfennau a gyflwynir gyda'r cais fod yn berthnasol i'r gwaith arfaethedig; er enghraifft, nid yw'n debygol y bydd angen ichi gyflwyno cynlluniau llawr er mwyn gwneud newidiadau i ffenestri.

5.6 Beth sy'n Digwydd Nesaf? ⇐

5.6.1 Dilysu ⇐

Ar ôl i'ch cais am gydsyniad adeilad rhestredig ddod i law'r awdurdod cynllunio lleol, bydd yn dilysu ei gynnwys fel arfer gan ddefnyddio'r rhestr gyfeirio uchod. Os yw'r cais yn gyflawn, bydd yr awdurdod yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi y bydd

yn penderfynu ar eich cais ac yn cynnig hawl i chi apelio os na fyddwch wedi cael penderfyniad o fewn wyth wythnos.³⁷ Os yw'r cais yn anghyflawn, efallai y gofynnir i chi roi gwybodaeth ychwanegol, ond gall awdurdod cynllunio lleol wrthod cais annigonol.

5.6.2 Hysbysebu $\neg$

Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol hysbysebu cynigion sy'n gofyn am gydsyniad adeilad rhestredig mewn papur newyddion lleol ac ar y safle neu'n agos ato. Mae'r hysbysiadau hyn yn cynnig cyfnod o 21 diwrnod i bartion â diddordeb gyflwyno sylwadau, ac mae'n rhaid ystyried y sylwadau hynny wrth benderfynu ar geisiadau. Nid oes angen hysbysebu ceisiadau nad ydynt ond yn effeithio ar y tu mewn i adeilad rhestredig gradd II, nac ychwaith geisiadau i amrywio neu ollwng amodau sydd ynghlwm wrth gydsyniad adeilad rhestredig o'r fath.

5.6.3 Ymgynghori $\neg$

Yn achos ceisiadau i ddymchwel adeilad rhestredig neu i wneud newidiadau sy'n cynnwys rhywfaint o ddymchel, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â CBHC a'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol,³⁸ gan roi cyfnod o 21 diwrnod iddynt gynnig eu cyngor. Mae gan y cymdeithasau amwynder hyn wybodaeth arbenigol am gyfnodau penodol a mathau penodol o adeiladau, a disgwylir i bwys priodol gael ei roi ar eu cyngor wrth benderfynu ar geisiadau.

5.7 Amodau $\neg$

Os rhoddir cydsyniad adeilad rhestredig, efallai y bydd amodau ynghlwm wrtho.³⁹ Bydd angen i chi eu darllen yn ofalus a sicrhau eich bod yn gallu cydymffurfio â'r amodau cyn dechrau ar unrhyw waith. Dylech roi copi o'r cydsyniad, ac unrhyw gymeradwyaethau eraill, i'ch adeiladwr neu'ch contractwr, cyn i'r gwaith ddechrau neu cyn i unrhyw undendro am gontract. Mae'n drosedd methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth gydsyniad adeilad rhestredig.

Gallai amodau gynnwys gofyniad i ddarparu manylion penodedig ychwanegol, neu gyflwyno datganiad dulliau cadwraeth ar gyfer gwaith penodol neu ddiogelu adeiladwaith hanesyddol.

Os bydd yr awdurdod cynllunio lleol o'r fam y gallai'r gwaith arfaethedig arwain at ddatgelu neu ddinistrio nodweddion, mae'n bosibl y bydd yn ei gwneud yn ofynnol i chi drefnu bod gwaith cofnodi'n cael ei wneud neu bod ymchwiliadau archaeolegol yn cael eu cynnal. Bydd manylion am ba waith cofnodi y bydd angen ei wneud yn cael eu darparu ar ôl i chi gael eich hysbysiad o benderfyniad.

Os fyddwch wedi cael cydsyniad i ddymchwel adeilad rhestredig, bydd angen i chi hefyd gysylltu â CBHC cyn i chi allu dechrau ar unrhyw waith. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i chi roi mis o rybudd i CBHC am unrhyw waith a rhoi mynediad rhesymol i'r adeilad i'w staff fel y gallant gofnodi'r adeilad cyn i'r gwaith ddechrau, os bydd angen gwneud hynny.

5.8 Hysbysu $\neg$

Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu rhoi cydsyniad adeilad rhestredig, mae'n rhaid iddo, mewn rhai achosion, hysbysu Cadw am y cais yn gyntaf. Mae gan Cadw 28 diwrnod o'r dyddiad y daw'r cais i law i benderfynu naill ai i argymhell bod Gweinidogion Cymru yn galw'r cais i mewn ac yn penderfynu arno, neu i ganiatáu i'r awdurdod cynllunio lleol benderfynu ar y cais. Os na wneir penderfyniad o'r fath ymhén 28 diwrnod, mae'n bosibl y bydd yr amserlen yn cael ei hestyn.⁴⁰ Os bydd yr awdurdod cynllunio yn penderfynu gwrthod rhoi cydsyniad, nid oes angen iddo hysbysu Cadw.

Mae ceisiadau yr ystyrir eu galw i mewn, sy'n teilyngu sylw gan Weinidogion Cymru, yn geisiadau sy'n codi materion o fwy na phwysigrwydd lleol neu o arwyddocâd eithriadol neu'n destun dadl arbennig.

Fel arfer, arolygydd annibynnol o'r Arolygiaeth Gynllunio a benodir at y diben hwnnw fydd yn penderfynu ar gais a alwyd i mewn. Bydd yr arolygydd yn ystyried yr holl ffeithiau perthnasol ac unrhyw wrthwynebiadau i'r cais cyn gwneud penderfyniad.

5.9 Sut i Apelio $\neg$

Mae gennych hawl i apelio i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, yr Arolygiaeth Gynllunio) os bydd awdurdod cynllunio lleol yn:

- gwrthod rhoi cydsyniad ar gyfer gwaith ar adeilad rhestredig
- rhoi cydsyniad adeilad rhestredig ag amodau ynghlwm wrtho
- gwrthod cais i amrywio neu gyflawni amodau sydd ynghlwm wrth gydsyniad adeilad rhestredig
- gwrthod cais am gymeradwyaeth sy'n ofynnol gan amod sydd ynghlwm wrth y caniatâd adeilad rhestredig
- methu â phenderfynu ar eich cais o fewn 8 wythnos, neu o fewn cyfnod amser gwahanol y byddwch chi a'r awdurdod cynllunio lleol wedi cytuno arno.

Gallwch hefyd apelio ar y sail nad yw'ch adeilad o ddiddordeb pensarnïol neu hanesyddol arbennig ac nad yw'n deilwng o statws adeilad rhestredig.

Mae'n rhaid i chi apelio o fewn chwe mis i benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol, neu ei fethiant i wneud penderfyniad.

5.10 Yn Ystod y Gwaith $\neg$

Weithiau, deuir o hyd i nodweddion o ddiddordeb megis lleoedd tân, paneli a hyd yn oed furluniau wrth wneud newidiadau, yn arbennig mewn adeiladau hŷn neu fwy o faint. Os dewch ar draws unrhyw nodweddion o'r fath, dylech geisio cyngor yr awdurdod cynllunio lleol. Os oes unrhyw bosibilrwydd y caiff nodweddion cudd eu datgelu, gall yr awdurdod cynllunio lleol osod amod priodol ar y cydsyniad adeilad rhestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu cadw neu eu cofnodi'n briodol.

Mae'n arfer dda i'r awdurdod cynllunio lleol fonitro hynt y gwaith er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n gwneud y gwaith yn cydymffurfio â'r cydsyniad ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrtho.

5.1.1 Gwaith Anawdurdodedig $\neg$

Mae'n drosedd gwneud gwaith ar adeilad rhestredig sy'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig heb gydsyniad adeilad rhestredig.⁴¹ Amlinellir mathau o waith sy'n debygol o effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig yn adran 4 (Rheoli Newid). Mae hefyd yn drosedd methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau a osodwyd ar gydsyniad adeilad rhestredig.

Pan fyddant yn wynebu achos o dorri'r rheolau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, bydd awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried a ddylent gymryd camau gorfodi a/neu erlyn, neu'r ddau.⁴² Mae angen i unrhyw gamau a gymerir fod yn effeithiol, a dylid trafod gyda'r perchennog neu'r meddiannydd. Gallai hynny fod yn fodd i sicrhau canlyniad priodol sy'n golygu na fydd angen cymryd camau gorfodi. Weithiau, gallai camau gorfodi fod yn ymateb digonol i'r drosedd a gallent fod o fudd i'r adeilad. Fodd bynnag, mae gwaith anawdurdodedig, yn aml, yn dinistrio adeiladwaith hanesyddol, ac ni ellir adfer ei ddiddordeb arbennig drwy gamau gorfodi.

Ceir gwneud ceisiadau i gadw gwaith anawdurdodedig. Er mwyn asesu cais o'r fath, bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dilyn yr un gweithdrefnau â'r rheini a ddisgrifiwyd ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig, a byddant yn defnyddio'r un profion i bwysu a mesur rhinweddau'r achos. Os rhoddir cydsyniad, nid yw'n ôl-weithredol; dim ond o ddyddiad y cydsyniad yr awdurdodir y gwaith. Os na chaiff cydsyniad ei roi, efallai y cymerir camau gorfodi i unioni unrhyw ddifrod neu ddileu'r gwaith ac, mewn rhai achosion, efallai y caiff y sawl sy'n gyfrifol ei erlyn.⁴³

Atodiad ⇐

Cais am Gydsyniad Adeilad Rhestredig — Rhestr Gyfeirio o Ddogfennau Ategol ⇐

Eitem	Cynnwys a graddfa
Datganiad am yr Effaith ar Dreftadaeth	Dylai eich datganiad am yr effaith ar dreftadaeth roi crynodeb o'r gwaith arfaethedig ac esbonio'r hyn y bwriedir iddo ei gyflawni, a dylai esbonio arwyddocâd yr ased a'r agweddau ar ei werth yr effeithir amynt yn fwyaf uniongyrchol. Dylai asesu effaith y cynnig, gan gynnwys y manteision posibl, yn ogystal ag unrhyw niwed. Dylai'r asesiad fod yn gymesur â'r cynigion a'u heffaith debygol.
Datganiad Mynediad	Bydd angen datganiad mynediad os oes angen.
Map Lleoliad	Ar raddfa o 1:1,250 neu 1:2,500. Dylid amlinellu adeiladau yr effeithir amynt mewn coch a thir cyfagos sy'n eiddo i'r un perchennog mewn glas.
Cynlluniau	Ar lefel pob llawr, graddfa o 1:50 (1:100 ar gyfer adeiladau mawr). Lluniadau ar wahân i ddangos y sefyllfaoedd presennol ac arfaethedig. Dylai cynlluniau digidol gyfeirio at faint y papur.
Gweddlluniau a Thrychiadau	Mae'n rhaid dangos newidiadau allanol ar weddlluniau presennol ac arfaethedig, a newidiadau mewnol ar drychiadau tebyg, ar yr un raddfa â graddfa'r cynlluniau.
Manylion	Ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar nodweddion mwy o faint, er enghraifft, drysau, ffenestri, rheiliau a grisiau, lluniadau ar raddfa o 1:10 ac 1:20; ar gyfer manylion cain a mwy addurniadol, er enghraifft, mowldiau cerrig, bariau gwydro pren, manylion plastr a gwaith metel cywrain, ar raddfeydd o 1:2 neu 1:1.
Ffotograffau	Rhaid cynnwys ffotograffau dyddiedig sy'n dangos golwg presennol y rhannau hynny o'r adeilad a'i leoliad yr effeithir amynt. Gellir defnyddio ffotogyfosodiadau sy'n dangos effeithiau gweledol newidiadau arfaethedig ar gyfer mân waith, er enghraifft, ychwanegu goleuadau, erialau, larymau, neu newidiadau i flaenau siopau ac arwyddion siopau. Dylid dangos lleoliad ehangach yr adeilad rhestredig ar ffotograffau a dynnwyd ymhellach i ffwrdd.
Ecoleg	Lle bo hynny'n briodol, rhaid cynnwys datganiad ynghylch pa gyfyngiadau ecolegol a ystyriwyd. Dylid atodi canlyniadau ac argymhellion yr arolwg ecolegol i'r cais.
Adroddiadau Arbenigol	Fel y gofynnir amdanynt gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Cyfeiriadau ↗

- 1 *Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol* ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>
- 2 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy>
- 3 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cymru 2011* ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy>
- 4 *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>
- 5 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011* ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy>
- 6 *Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru* ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsvl/cof-cymru/?lang=cy>
- 7 *Gweler Gwybodaeth Bellach — Gwybodaeth Hanesyddol a Chysylltiadau* ↗
- 8 *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017* ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy>
- 9 *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017* ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy>
- 10 *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017* ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy>
- 11 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2011* ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy>
- 12 *Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 16(2)* ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/16>
- 13 *Cynnal a Chadw!* ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/lookingafteryourproperty/maintenancematters/?skip=1&lang=cy>
- 14 *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990, adran 215* ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/8/section/215>
Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 48, hysbysiadau atgyweirio
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/48>

- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 54, gwaith brys
<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/section/54>
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 30, gwaith brys: estyn y cwrpas ac adennill costau
<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/section/30/enacted/welsh>
- Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
- 15 Gweler canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyflogi ymgynghorydd ecolegol ⇐
<https://www.naturalresources.wales/media/3473/canllawiau-ar-gyflogi-ecolegwyr.pdf>
- 16 Gweler canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyflogi ymgynghorydd ecolegol ⇐
<https://www.naturalresources.wales/media/3473/canllawiau-ar-gyflogi-ecolegwyr.pdf>
- 17 Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014, sy'n diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ⇐
<http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/approved-documents/part-1-energy/?skip=1&lang=cy>
- 18 Gweler, er enghraifft, y Gynghrair Adeiladau Hanesyddol Cynaliadwy ⇐
<http://stbauk.org/>
- 19 Ynni adnewyddadwy a'ch Adeilad Hanesyddol. Gosod Systemau Microgynhyrchu: Canllaw Arfer Gorau, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010 ⇐
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Micro_gen_booklet_CY.pdf
- 20 Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol, Cadw: Welsh Historic Monuments, 2002 ⇐
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Overcoming_the_Barriers_CY.pdf
- 21 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adrannau 7 ac 8 ⇐
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/part/II/chapter/II>
- 22 Mae Egwyddorion Cadwraeth yn diffinio 'diogelu' fel 'cadw rhag niwed' ⇐
- 23 Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, paragraffau 1.23–1.29 ⇐
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
Lleoliadau Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy>
- 24 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 16 ⇐
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/16>
- 25 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adrannau 1(3) ac 1(5) ⇐
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/1>
- 26 Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 ⇐
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy>
- 27 Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, paragraffau 5.22–5.23 ⇐
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>

- 28 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, paragraffau 5.28–5.29 ⇐
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 29 Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio rhif 2) 2017 ⇐
Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy>
- 30 *Gwireddu Potensial Trafodaethau Cyn Ymgeisio*, Canllaw Arfer Llywodraeth Cymru, Mai 2012 ⇐
<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/preappguide/?lang=cy>
- 31 *Llawlyfr Rheoli Datblygu*, adran 6.3 ⇐
<http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?skip=1&lang=cy>
- 32 *Gweler Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, paragraffau 1.30–1.34 ⇐
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 33 Y Ffurflen Gais Safonol (ffurflen 1 APP) ⇐
<http://gov.wales/topics/planning/faqs/1appfaqs/?skip=1&lang=cy>
- 34 Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017 ⇐
- 35 *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017* ⇐
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
- 36 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para 5.15 ⇐
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 37 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 20(3)(b) ⇐
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/20>
Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu'r ymgeisydd am ei benderfyniad, neu ei hysbysu bod y cais wedi'i gyfeirio at Weinidogion Cymru, ymhen 8 wythnos i'r dyddiad y mae cais dilys yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod, neu ymhen y cyfryw gyfnod amser ag y cytunir arno'n ysgrifenedig gan yr ymgeisydd a'r awdurdod.
- 38 Rhestrir y cymdeithasau amwynder cenedlaethol o dan 'Cysylltiadau' ⇐
- 39 Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu. Mae rhai amodau enghreifftiol ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig yn y cylchlythyr hwn, ond nid yw'n cynnwys pob amod posibl ⇐
<http://gov.wales/topics/planning/policy/circulars/welshgovcirculars/wgc-16-2014/?skip=1&lang=cy>
- 40 Dirprwyo — Mae Llywodraeth Cymru wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros waith mewnol i adeiladau rhestredig gradd II i'r awdurdodau cynllunio lleol. Mae hefyd wedi dirprwyo awdurdod i rai o'r awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith ar adeiladau rhestredig gradd II (heblaw am ddymchwel) heb hysbysu Cadw. Bydd eich awdurdod

lleol yn gallu cadarnhau a oes ganddo awdurdod dirprwyedig ai peidio. Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adrannau 12 a 13 ⇐

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/12>

41 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 59 ⇐

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/59>

42 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 38, hysbysiad gorfodi ar gyfer adeilad ⇐

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/38>

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 29, hysbysiadau stop dros dro

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/section/29/enacted/welsh>

43 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 38 ⇐

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/38>

Gwybodaeth Bellach ↗

Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cynllunio

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents>

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9),

<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol

<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy>

Llawlyfr Rheoli Datblygu

<http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?skip=1&lang=cy>

Canllawiau Arferion Gorau

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2011

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy>

Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy>

Aseidiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy>

Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy>

Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Gwireddu Potensial Trafodaethau Cyn Ymgeisio, Canllaw Arfer Llywodraeth Cymru, Mai 2012

<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/preappguide/?skip=1&lang=cy>

Cynnal a Chadw a Chadwraeth

Mae Cadw wedi cyhoeddi amrywiaeth o gyhoeddiadau sy'n ymdrin â gofalu am wahanol fathau o adeiladau, a'u cadw a'u haddasu. Mae'r rhain i'w gweld ar-lein yma::

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

BS7913 Guide to the Conservation of Historic Buildings

<http://shop.bsigroup.com/ProductDetail/?pid=000000000030248522>

Historic England <https://historicengland.org.uk/advice/your-home/>

Historic Environment Scotland <https://www.engineshed.org/>

Y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol www.ihbc.org.uk

Cynnal a Chadw! <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/lookingafteryourproperty/maintenancematters/?lang=cy>

Gwybodaeth Hanesyddol

Archifau Cymru — catalog ar-lein sy'n caniatáu ichi chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol sy'n cael eu cadw gan yr 21 o archifau yng Nghymru.

www.archifaucymru.org.uk

Archwilio — mae'n darparu mynediad ar-lein i'r cyhoedd i'r cofnodion am amgylchedd hanesyddol ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Archwilio yn cael ei gynnal gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru a'i ategu â gwybodaeth bellach sydd gan yr ymddiriedolaethau hynny.

www.archwilio.org.uk

Coflein — catalog ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru. www.coflein.gov.uk/cy/

Cof Cymru — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchodedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Bydd parciau a gerddi hanesyddol yn cael eu hychwanegu at Cof Cymru yn ystod 2018. <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy>

Cynefin — adnodd ar-lein i ymchwilio i fapiau'r degwm a'u mynegeion yng Nghymru

<http://cynefin.archiveswales.org.uk/cy/>

Cymru Hanesyddol — porth ar-lein at gofnodion cenedlaethol a rhanbarthol o'r amgylchedd hanesyddol www.cymruhanesyddol.gov.uk

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru — mae'n rhestru'r amryfal ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, tramwyfeydd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodwyd mewn ffynonellau sy'n rhagflaenu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

<https://enwaulleoedddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>

Llyfrgell Genedlaethol Cymru https://www.llgc.org.uk/cy/?no_cache=1

Cael Gafael ar Ddeunyddiau Priodol

Mae amrywiaeth eang o gyflenwyr sy'n gallu darparu mathau gwahanol o ddeunyddiau ar gyfer gwaith adeiladu traddodiadol, er enghraifft: calch ar gyfer morterau; blew ar gyfer plastrau a theils to clai. Ceir manylion mewn cyfeirlyfrau arbenigol megis *The Building Conservation Directory*.

Efallai y bydd swyddog cadwraeth yr awdurdod lleol yn gallu eich helpu i gael gafael ar ddeunydd sy'n benodol i'r ardal, megis math o fricsen a gynhyrchwyd yn lleol, neu fath penodol o garreg.

Cysylltiadau ↗

Llywodraeth Cymru

Gwasanaeth yr Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)

Plas Caeriw, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn. 03000 256000

cadw@wales.gsi.gov.uk

<http://cadw.gov.wales>

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU

Ffôn. 01970 621200

nmr.wales@rcahmw.gov.uk

<https://cbhc.gov.uk/hafan/>

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

nmr.wales@rcahmw.gov.uk

<http://www.coflein.gov.uk/cy/>

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adeiladau'r Goron

Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn. 029 2082 3866

wales@pins.gsi.gov.uk

<http://planninginspectorate.gov.wales/?skip=1&lang=cy>

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth a swyddogion cynllunio'r awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

Cymdeithasau Amwynder

Cymdeithas Amwynder Genedlaethol	Ystod Dyddiadau	Diddordebau Penodol
Y Cyngor Archaeoleg Brydeinig http://new.archaeologyuk.org/	Pob cyfnod	Effeithiau ar adeiladwaith a gweddillion archaeolegol
Y Gymdeithas Henebion http://ancientmonumentsociety.org.uk/	Pob cyfnod	Eglwysi
Y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol www.spab.org.uk/	Cyn-1700	
Y Grŵp Sioraidd www.georgiangroup.org.uk	1700–1840	
Cymdeithas Oes Fictoria www.victoriansociety.org.uk	1840–1914	
Cymdeithas yr Ugeinfed Ganrif www.c20society.org.uk	1914 ymlaen	

Yr Ymddiriedolaeth Theatrau
<http://www.theatrestrust.org.uk/>

Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
<http://www.whgt.org.uk/>

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan
Y Trallwng SY21 7RR
Ffôn. 01938 553670
trust@cpat.org.uk
http://www.cpat.org.uk/w_index.htm

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
The Corner House, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE
Ffôn. 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent
Heathfield House, Heathfield, Swansea SA1 6EL
Ffôn. 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
http://www.ggat.org.uk/index_cym.html

Craig Beuno, Ffordd y Garth
Craig Beuno, Garth Road, Bangor LL57 2RT
Ffôn. 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

Dolenni o'r ddogfen hon

Lle mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i wefannau ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partiön, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid ystyried bod rhestru dolenni yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau y ceir dolenni iddynt ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb amdanynt nac am unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o'ch defnydd ohonynt.